CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# CALON TÂN

CHWEFROR 2024

## MIS CHWEFROR YW MIS YMWYBYDDIAETH LHDT+
TUDALEN 3







## #DEFIBUARY PARTNERIAETH DIFFIBRILWYR
TUDALEN 10

GARDD BYWYD GWYLLT GORSAF PONTARDDULAIS
TUDALEN 12

CWRDD A'R TÎM - ADRAN CAFFAEL
TUDALEN 6

CHWARAEON A CHYMDEITHASU - RYGBI
TUDALEN 17

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| MIS YMWYBYDDIAETH LHDT+ | 3 |
| HYFFORDDIANT | 4 |
| CWRDD A'R TÎM - ADRAN CAFFAEL, Y PENCADLYS | 6 |
| HYFFORDDIANT UK-ISAR | 8 |
| DIGWYDDIADAU | 9 |
| DEFIBRILLATOR PARTNERSHIP | 10 |
| NEWYDDION Y GORSAFOEDD | 12 |
| RHAGLEN DDOGFEN TÂN A RHEW | 16 |
| HER Y DIFFODDWR TÂN CRAIG NEIL | 17 |
| CHWARAEON A CHYMDEITHASU | 18 |
| SWYDDI | 20 |


**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.**

**Dyma beth a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:**

- **1816** Galwadau i'r Ganolfan Rheoli
- **860** Digwyddiadau a fynychwyd
- **55** O danau mewn adeiladau
- **375** O alwadau ffug
- **7** Anifail wedi'u Hachub
- **9** O ddigwyddiadau achub dwr
- **52** O wrthdrawiadau traffig ffyrdd
- **49** O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill



# MIS CHWEFROR YW MIS YMWYBYDDIAETH LHDT+

**Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn yn y Gwasanaeth, ac maent yn werthoedd sy'n greiddiol i brosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.**

Gyda'n gilydd, gallwn ddangos undod gyda'r gymuned LHDT+ ac ailddatgan ein hymrwymiad i greu dyfodol mwy cynhwysol a theg.






# YMARFERIAD HYFFORDDI GWRTHDRAWIADAU AR Y FFORDD YNG NGORSAF DÂN ABERYSTWYTH

**Yn ddiweddar, cynhaliodd y criw yng Ngorsaf Dân Aberystwyth ymarferiad hyfforddi gwrthdrawiadau ar y ffordd aml-asiantaethol.**

Daeth yr ymarfer hyfforddi ar gyfer gwrthdrawiadau traffig ffyrdd â diffoddwyr tân o Orsaf Dân Aberystwyth, parafeddygon o Aberystwyth a myfyrwyr meddygol o Brifysgol Abertawe ynghyd i efelychu sefyllfaoedd realistig lle buont yn cydweithio i ymateb i'r math hwn o ddigwyddiad.

ERTHYGL LLAWN







# HYFFORDDIANT EWYN HWLFFORDD

**Ddydd Llun, 19 Chwefror cynhaliodd criwiau amser cyflawn ac ar alwad o Hwlffordd a Gorsaf Dân Aberdaugleddau hyfforddiant ewyn ochr yn ochr â staff o Faes Awyr Hwlffordd.**

Nod y sesiwn hyfforddi oedd helpu aelodau'r criw i ddatblygu eu sgiliau ymarferol wrth ddefnyddio ewyn diffodd tân yn ddiogel. Roedd yn efelychu sut y byddai'r criw yn delio â digwyddiadau mewn maes awyr ac o'i gwmpas, yn ogystal ag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau eraill y maen nhw'n debygol o'u mynychu. Roedd y sesiwn hefyd yn galluogi criwiau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o uned ewyn arbenigol y Gwasanaeth, sydd wedi'i lleoli yn Aberdaugleddau.

Hoffai'r criw ddiolch yn fawr i Phil Davies a Bryn Etchells o Faes Awyr Hwlffordd am helpu i hwyluso'r hyfforddiant.

Gweithio mewn partneriaeth ar ei orau!









# Cwrdd a'r Tîm




## CWRDD A'R ADRAN CAFFAEL

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n (GTACGC) cyflogi dros 1,300 aelod o staff sy'n darparu ymateb brys, gwybodaeth am ddiogelwch y cyhoedd, rhaglenni atal a diogelu a mwy i tua 12,000 cilomedr sgwâr – bron i ddwy ran o dair o Gymru.**

Mae'r Adran Gaffael yn delio â'r prynu cychwynnol, y cyflenwi a'r gwaredu, gan ymgorffori ystyriaethau cynaliadwyedd fel ffactorau economaidd, moesegol, moesol ac amgylcheddol.






### Helen Rees
Pennaeth Caffael a Chontractio

Helo, Helen ydw i, Pennaeth Caffael a Chontractio, ac rwyf wedi gweithio i'r Gwasanaeth ers 23 mlynedd.

Rwyf wedi gweithio yn yr adrannau Dŵr, Storfeydd a Chaffael. Mae fy mywyd y tu allan i'r gwaith yn troi o amgylch fy merch 32 oed sy'n byw yn Llundain, fy mam anabl a fy nyweddi Mathew. Dwi'n berson tanllyd tra bod yntau o natur hamddenol felly mae'n wir fod pobl o'r naill begwn a'r llall yn tueddu i gyd-dynnu'n dda!

Dwi'n hoff iawn o theatr a cherddoriaeth ac rwyf wedi bod yn ffodus i gwrdd â The Wanted, JLS, Take That, Peter André, Charlie Puth, Jason Derulo, Blue, Jonas Brothers, ac ymddangosais ar y teledu unwaith gyda DNCE (band Joe Jonas)!









### David Williams
Swyddog Caffael

David ydw i ac rwyf wedi gweithio i'r Gwasanaeth ers mis Awst 2009 fel Swyddog Caffael yn yr adran. Mae fy rôl yn cynnwys gweithio gydag adrannau, gan ddarparu cyngor ac arweiniad caffael i sicrhau bod nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn cael eu caffael yn unol â'r gofynion a'u bod yn rhoi gwerth am arian i'r Gwasanaeth.

Y tu allan i'r gwaith, rwy'n mwynhau treulio amser gyda fy nheulu a ffrindiau, cerdded fy nghi a theithio. Rwyf hefyd yn mwynhau gwylio amrywiaeth o chwaraeon ac yn ceisio mynychu cymaint o gemau'r Scarlets ag y gallaf, pan fydd amser yn caniatáu.



### Liann Phillips
Swyddog Caffael

Helô, Liann ydw i, fi yw'r Swyddog Caffael ac rwyf wedi gweithio i'r Gwasanaeth er 2005. Yn ddiweddar, cyflawnais fy Niploma Proffesiynol Lefel 6 mewn Caffael a Chyflenwi ac rwy'n ymgymryd ag ystod o weithgareddau Caffael ar gyfer amrywiaeth o adrannau ar draws y Gwasanaeth.

Fel mam i dri bachgen, nid oes llawer sy'n fy nychryn y dyddiau hyn. Pan nad wyf yn rhedeg o gwmpas ar ôl y bechgyn, gellir dod o hyd i mi gyda thâp mesur yn ychwanegu at y rhestr ddiddiwedd o brosiectau DIY sy'n cadw fy mhartner Dafydd ar flaenau ei draed.






### Dianne Wooles
Swyddog Cytundebau

Helo, Dianne ydw i ac rydw i wedi bod yn gweithio i'r gwasanaeth er 2019. Fi yw'r Swyddog Contractau yn y Tîm Caffael bach ond effeithlon. Yn gryno, mae fy rôl yn cynnwys diweddaru a chynnal y contractau i sicrhau bod adrannau'n cydymffurfio â'u contractau.

Rwy'n hoffi gwrando ar bob math o gerddoriaeth a byddwn wrth fy modd yn dysgu roc a rôl, er bod gen i ddwy droed chwith! Mae gen i labrador du sy'n fy nghadw'n brysur gyda theithiau cerdded hir ar hyd y traethau a'r coetiroedd. Rwy'n mwynhau teithio a fy hoff le yw Menorca - mae'n ynys mor brydferth.










# HYFFORDDIANT CHWILIO AC ACHUB RHYNGWLADOL

**Mae chwe aelod o griwiau o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sydd hefyd yn rhan o Dîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol y Deyrnas Unedig (UK-ISAR), wedi cael eu hanfon yn ddiweddar i fynychu cyrsiau amrywiol yn ystod yr wythnosau diwethaf.**

Mynychodd dau dechnegydd UK-ISAR gyrsiau goroesi tywydd oer yn Sweden, lle cawsant eu dysgu sut i oroesi a gweithio mewn amgylcheddau mor isel â -22°C am saith diwrnod ar y tro. Roeddent yn cysgu mewn pebyll mewn coedwigoedd a buon nhw'n dysgu am weinyddiaeth bersonol, darllen mapiau, sut i ddehongli amodau'r tywydd, sgiliau coginio, goroesi ar ôl cwympo i mewn i ddŵr oer ac adeiladu tân a llochesi mewn amodau sy'n anodd eu hefelychu yn y DU.

Yn y cyfamser, cynhaliwyd cyrsiau Penaethiaid Gweithredol ac Arweinwyr Criw ym mynyddoedd Swydd Amwythig, gyda phedwar technegydd UK-ISAR yn bresennol. Fel rhan o'r cwrs, bu'n rhaid i dechnegwyr UK-ISAR gydweithio, gwerthuso ac asesu gwybodaeth a roddwyd iddynt gan yr hyfforddwyr ac aelodau o'r cwrs Arweinwyr Criw.

**ERHYGL LLAWN**




# DIGWYDDIADAU

- **BREW WITH A CREW ABERDAUGLEDDAU - 13 EBRILL**
- **DIWRNOD AGORED PONTARDDULAIS - 31 MAI**
- **DIWRNOD PROFIAD Y DRENEWYDD - 19 MEHEFIN**
- **DIWRNOD PROFIAD HWLFFORDD - 11 GORFFENNAF**

**I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein holl ddigwyddiadau cymunedol, dilynwch ein hamserlen digwyddiadau ar Facebook [Gwasanaeth Tân ac Achub CGC]**

# DIFFIBRILWYR CYMUNEDOL I ACHUB BYWYDAU WEDI'U GOSOD MEWN GORSAFOEDD TÂN

#DEFIBUARY

**Mae'r gwaith o osod diffibrilwyr cyhoeddus (PAD) newydd mewn 23 o Orsafoedd Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) bellach wedi'i gwblhau – ac mae hyn nawr yn golygu bod pob un o'n gorsafoedd tân wedi'u lleoli o fewn 500 metr i ddiffibriliwr cyhoeddus.**

Trwy gydol y mis, rydym wedi rhannu rhai o'n PADs newydd ar y cyfryngau cymdeithasol i annog y cyhoedd i fod yn fwy ymwybodol o ddiffibrilwyr a pha mor hawdd yr ydynt i'w defnyddio, heb yr angen am unrhyw hyfforddiant blaenorol. Pan fyddwch yn ffonio 999, bydd y teleffonydd yn rhoi cyfarwyddiadau ar ble mae'r diffibriliwr cofrestredig agosaf wedi'i leoli a'r cod i agor y cabinet os oes angen.

Gwnaed hyn yn bosibl trwy bartneriaeth gydag Achub Bywyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), a nododd 23 o Orsafoedd Tân GTACGC nad oeddent yn agos at ddiffibriliwr cyhoeddus.

Lansiwyd y bartneriaeth yn swyddogol yn Niwrnod Agored Pencadlys GTACGC ym mis Medi 2023, drwy [ddadorchuddio'r uned gyntaf a ariannwyd drwy'r bartneriaeth yng Ngorsaf Dân Caerfyrddin.]

Diolch i WAST ac Achub Bywyd Cymru, mae gennym bellach 23 PADS newydd yn ein gorsafoedd.

ERTHYGL LLAWN



Wrth siarad yn lansiad y bartneriaeth, dywedodd Prif Swyddog Tân GTACGC, Roger Thomas:

**"Mae Gorsafoedd Tân GTACGC yn cael eu cydnabod fel tirnodau cymunedol ac maent wedi'u lleoli'n strategol ledled ein cymunedau. Rwy'n falch iawn bod y bartneriaeth newydd hon yn golygu y bydd gan nifer cynyddol o'n Gorsafoedd Tân fynediad 24 awr i ddiffibrilwyr cyhoeddus a fydd yn gwella canlyniadau cleifion yn fawr os cânt ataliad ar y galon."**













# DIWRNOD DANGOS A DWEUD LLANDEILO YN LLWYDDIANT YSGUBOL!

**Cynhaliodd Gorsaf Dân Llandeilo y cyntaf o dri diwrnod recriwtio 'Dangos a Dweud' ddydd Sadwrn 10 Chwefror.**

Yn ystod y dydd, cafodd darpar recriwtiaid newydd gyfle i gwrdd â'r criw a thrafod y gofynion a'r broses fynediad ar gyfer dod yn ddiffoddwr tân ar alwad. Cafodd y rhai a oedd â diddordeb y cyfle i gael profiad o ddefnyddio rhai o'r offer Prawf Pwynt Mynediad, a chael cyngor diogelwch hanfodol gan Elinor Goldsmith, Swyddog Addysg Ysgolion GTACGC.

Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr, gyda phum darpar ymgeisydd newydd yn mynegi diddordeb mewn ymuno â'r Gwasanaeth. Daeth Maer Llandeilo, Christoph Fischer, i ymweld â'r orsaf hyd yn oed!


Diolch yn fawr iawn i'r Rheolwr Gwylfa David Lewis a gweddill y criw yng ngorsaf Llandeilo, gan gynnwys Dan Ward ac Emyr Davies, Swyddogion Cyswllt yr Orsaf, ac Elinor Goldsmith a'r cyn-Reolwr Gwylfa John Herman am eu cymorth trwy gydol y dydd.

Bydd y ddau ddigwyddiad sy'n weddill yn cael eu cynnal ddydd Sadwrn, 16 Mawrth a dydd Sadwrn, 20 Ebrill, felly os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am ddod yn ddiffoddwr tân ar alwad yng ngorsaf Llandeilo, galwch heibio oherwydd byddem wrth ein bodd yn eich gweld!

Gallwch hefyd ymweld â'n tudalennau digwyddiadau ar Facebook i fynegi eich diddordeb – https://fb.me/e/4bJ4qyZuh Yn ogystal â'n tudalen Recriwtio Diffoddwyr Tân ar Alwad - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (mawwfire.gov.uk).











# GARDD BYWYD GWYLLT NEWYDD GORSAF PONTARDDULAIS

**Bydd y rheini sydd wrth eu bodd â natur yn gwerthfawrogi'r ardd bywyd gwyllt newydd sydd wedi'i sefydlu a'i phlannu yng Ngorsaf Pontarddulais. Cafodd yr ardd ei chreu gyda chymorth plant ysgolion cynradd lleol.**

Ers 2020 mae'r elusen amgylcheddol flaenllaw yng Nghymru, Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod yn cynnig cyfle i gymunedau ledled y wlad ailwampio a thrawsnewid eu hardaloedd lleol gyda phecynnau gardd am ddim.

Y syniad yw trawsnewid ardal flêr yn ardd a fydd o fudd i natur a'r ardal leol. Roedd ein Rheolwr Cynaliadwyedd Jessica Millard yn awyddus i wella ardal wag yng Ngorsaf Pontarddulais felly fe wnaeth hi gais am un o'r pecynnau gardd hyn a bwrw ati.

Nod y prosiect yw gwella iechyd a lles y gymuned leol. Pwrpas yr ardd bywyd gwyllt yw dod â chymuned at ei gilydd drwy gael mwy o bobl i wirfoddoli ac wrth gwrs, eu cysylltu â natur.

Ar 21 Chwefror, gwahoddwyd plant o Ysgol Gynradd Pontarddulais i dreulio'r diwrnod yn yr Orsaf i helpu'r criw i blannu'r ardd bywyd gwyllt newydd. Mae Cadwch Gymru'n Daclus a'r plant wedi helpu i greu lle i natur, a fydd yn tyfu ac yn cael ei lenwi â phlanhigion sy'n denu peillwyr ac amrywiaeth o gynefinoedd bywyd gwyllt eraill.

Da iawn chi gyd - rydyn ni'n edrych ymlaen at weld y cyfan yn tyfu ac yn blodeuo!















RHAGLEN DDOGFEN TÂN A RHEW

# O GYMRU I BEGWN Y DE

**Rydych chi eisoes wedi clywed am yr Antarctic Fire Angels a fu'n cerdded ac yn sgïo ar hyd arfordir yr Antarctig i Begwn y De wrth iddynt anelu at fod y tîm gwasanaeth brys cyntaf i gyrraedd gwaelod y Ddaear heb gefnogaeth.**

Mae ITV Cymru wedi cynhyrchu rhaglen ddogfen, a ddarlledwyd yn gynharach y mis hwn, felly gallwch ddilyn eu taith anhygoel o foethusrwydd eich cartref.

Dechreuodd y diffoddwyr tân Rebecca Openshaw-Rowe o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Georgina Gilbert o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar eu taith ddechrau mis Tachwedd 2023 a chyrraedd eu cyrchfan ar 12 Ionawr 2024.

Mae eu rhaglen ddogfen newydd, Fire and Ice, yn galluogi gwylwyr i ddilyn eu taith a gweld sut y gwnaethon nhw gerdded a sgïo dros 1,200km mewn 52 diwrnod o arfordir yr Antarctig i Begwn y De. Mae hynny'n cyfateb i 29 marathon, mewn amodau rhewllyd!

Roedd y daith yn ffrwyth llafur dros bedair blynedd o gynllunio a hyfforddi gofalus, ac un o'r prif amcanion oedd herio stereoteipiau rhywedd ac ysbrydoli cenedlaethau o fenywod yn y dyfodol.

Mae'r Antarctic Fire Angels wedi bod yn codi arian pwysig ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân - mae eu tudalen JustGiving yn dal i dderbyn rhoddion.

Mae pawb yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn llongyfarch Rebecca a Georgina ar eu llwyddiant anhygoel.

Os na wnaethoch chi lwyddo i weld y darllediad byw ar ITV Wales, mae'r rhaglen ddogfen yn dal ar gael i'w gwylio ar-lein ar ITVX.

#FELMERCH








# Y DIFFODDWR TÂN CRAIG NEIL YN LLWYDDO I GWBLHAU HER 496

**Mae'r diffoddwr tân Craig Neil, o Orsaf Dân y Drenewydd, wedi cwblhau ei Her 496 ryfeddol - drwy redeg cyfanswm o 496km yn ystod mis Ionawr.**

Mae Her 496 yn golygu rhedeg 1km ar ddiwrnod un, 2km ar ddiwrnod dau gan gynyddu i gyfanswm o 31km ar ddiwrnod 31 - sy'n cyfateb i gwblhau 12 marathon mewn mis!

Fe wnaeth Craig gwblhau'r her yn llwyddiannus ddydd Mercher 31 Ionawr a chroesi llinell derfyn arbennig yng Ngorsaf Dân y Drenewydd. Roedd aelodau ei griw a'i deulu sydd wedi ei gefnogi drwy gydol yr her epig hon yno i'w groesawu.



ERTHYGL LLAWN

# DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

**Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.**

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:

ROWNDERI ROUNDERS

CLWB CRICED CRICKET CLUB

CLWB BOWLIO BOWLS CLUB

CLWB BEICIO CYCLING CLUB

CLWB PYSGOTA PLY FLY FISHING CLUB

CLWB PÊL DROED FOOTBALL CLUB

CLWB GOLFF GOLF CLUB

FFOCWS CHWARAEON MENYWOD FEMALE SPORTS FOCUS

CLWB RYGBI RUGBY CLUB

CLWB TRIATHLON TRIATHLON CLUB

CLWB TRAWSFFIT CROSSFIT CLUB

**Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg**

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau.

Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk



# NODWEDD FISOL AR ADRAN CHWARAEON A CHYMDEITHASOL - FFOCWS AR RYGBI!

CLWB RYGBI RUGBY CLUB

**Rydym am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am bob Adran o'n Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, felly gadewch i ni edrych yn fanylach arnynt.**

Yr adran dan sylw y mis hwn yw... Rygbi!

Mae'r adran Rygbi, sydd wedi ei hen sefydlu, wedi bod yn rhedeg ers blynyddoedd lawer. Yn 2021 cymerodd Sam Phillips a Craig Jenkins yr awenau fel rheolwyr yr adran, gan ganolbwyntio ar ddod â bywyd newydd i'r adran a recriwtio mwy o chwaraewyr. Erbyn hyn mae gan yr adran dros 30 o aelodau sy'n cymryd rhan!

Mae'r Capten, Scott Davies, yn aelod o'r adran Rygbi ers amser maith. Ymunodd fel diffoddwr tân ar alwad ond yn ddiweddar dechreuodd ar ei gyfnod pontio i fod yn ddiffoddwr tân amser cyflawn ac mae'n dechrau'r gêm yn rheolaidd gydag **Adran Rygbi Tân Cymru**

Mae is-gapten y tîm, Gareth Thomas, yn Rheolwr Criw amser cyflawn yng ngorsaf dân Aberdaugleddau ac yn Rheolwr Criw Ar Alwad yn Nhreforys. Mae Gareth hefyd yn chwarae i **Adran Rygbi Tân Cymru**

Mae'r adran Rygbi wedi gweld nifer o chwaraewyr yn cael cap i dîm Gwasanaeth Tân Cymru, gan chwarae yn erbyn Gwasanaethau Tân ac Achub yn Iwerddon, Lloegr a'r Alban. Mae'r tîm wedi mynychu sawl twrnamaint gan gynnwys 7 bob ochr Calon Cymru a 7 bob ochr cymysg y Gweilch, ac roedd y ddau'n brawf go iawn o ffitrwydd ac ystwythder y tîm.

Mae aelodau'r tîm yn driw iawn i'w gilydd ac maent yn cadw mewn cysylltiad agos, gan drefnu sesiynau hyfforddi a gemau ar adegau sy'n gyfleus i bawb. Maent yn mynd ati i godi arian ar gyfer elusennau amrywiol, gan gynnwys **Elusen y Diffoddwyr Tân**, **Apêl Wcráin** a **Pembrokeshire Vikings** ac yn ymfalchïo yn eu chwarae teg a'u cyfeillgarwch wrth ymwneud â'r gymuned.

Mae **Adran Rygbi GTAGCC** yn agored i holl weithwyr y Gwasanaeth gan gynnwys gwirfoddolwyr, gweithwyr amser cyflawn, gweithwyr ar alwad, staff cymorth ac aelodau sydd wedi ymddeol. Mae croeso i bawb ymuno neu helpu mewn unrhyw ffordd, boed hynny drwy chwarae, hyfforddi, ffisiotherapi neu ymuno ar gyfer yr ochr gymdeithasol.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth neu os hoffech chi ymuno â'r adran Rygbi, cysylltwch â Craig Jenkins - **c.jenkins@mawwfire.gov.uk** neu Sam Phillips - **sam.phillips@mawwfire.gov.uk**





SWYDDI

# GWEITHIO GYDA NI!

**Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.**

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

## Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael – 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg – Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

**GWELD SWYDDI GWAG CYFREDOL**










**AR ALWAD**
Recriwtio Diffoddwyr Tân
**ON CALL**
Firefighter Recruitment

# DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?

Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# #MwyNaDimOndTanau
# #MoreThanJustFires

www.tancgc.gov.uk